# Mesurau Arbennig: Taflen Holi ac Ateb i gleifion

## Beth yw mesurau arbennig?

Mae mesurau arbennig yn cyfeirio at amrywiaeth o gamau y gellir eu cymryd i wella byrddau neu ymddiriedolaethau iechyd a gwasanaethau penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae hyn yn cynrychioli'r lefel uchaf oll o uwchgyfeirio. Mae'n digwydd pan nad yw bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd yn gwneud y gwelliannau a ddisgwylir ganddynt a phan fo pryder bod angen cymorth allanol ar arweinwyr a rheolwyr i ymateb i'r pryderon difrifol sydd wedi dod i'r amlwg.

## Pwy sy'n penderfynu pryd y dylid rhoi bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd neu wasanaeth GIG o dan fesurau arbennig?

Cafodd Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru eu cyflwyno ym mis Ebrill 2014 ar ôl cael eu datblygu mewn ymateb i argymhellion gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r fframwaith hwn ar gael yma:

http://gov.wales/docs/dhss/publications/140320escalationnhscy.pdf

Mae Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i nodi materion difrifol sy'n effeithio ar wasanaethau'r GIG, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd sefydliadau, ac ymateb i'r materion hynny.

Mae pedair lefel o uwchgyfeirio, sy'n adlewyrchu gwahanol lefelau cynyddol o bryder:

- Trefniadau rheolaidd – mae hyn yn adlewyrchu gwaith arferol
- Monitro uwch
- Ymyrraeth wedi'i thargedu
- Mesurau arbennig

Byddant yn rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd os dylid rhoi bwrdd, ymddiriedolaeth neu wasanaeth iechyd o dan fesurau arbennig. Os yw bwrdd/ymddiriedolaeth neu wasanaeth iechyd yn cael ei roi/rhoi o dan fesurau arbennig bydd rhybudd ffurfiol o statws mesurau arbennig yn cael ei gyhoeddi gan brif weithredwr GIG Cymru.

## Pryd fydd y lefel o uwchgyfeirio yn cael ei hadolygu?

Mae Llywodraeth Cymru, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfarfod bob chwe mis i adolygu sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, gellir gwneud cais

arbennig am gyfarfod eithriadol y tu allan i'r broses arferol os bydd pryder difrifol wedi codi.

**Beth yw mesurau arbennig?**

Mae mesurau arbennig yn cyfeirio at amrywiaeth o gamau y gellir eu cymryd i wella byrddau neu ymddiriedolaethau iechyd neu wasanaethau penodol y GIG mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae'r camau gweithredu yn gallu cynnwys lleoli unigolion allweddol ar gyfer rhoi cymorth a nodi camau a cherrig milltir mewn fframwaith gwella i fwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd eu bodloni er mwyn dangos cynnydd. Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gynnig diweddariad rheolaidd ar fanylion y cynnydd sydd wedi ei wneud o dan y camau a nodwyd yn y fframwaith.

Gall camau ymyrryd gan Weinidogion Cymru hefyd gynnwys atal dros dro neu dynnu pwerau a dyletswyddau oddi wrth aelodau unigol neu bob aelod o fwrdd y bwrdd iechyd neu gyfarwyddo bwrdd iechyd i sicrhau bod unrhyw un o'i swyddogaethau yn cael ei gwneud gan berson y'i penodwyd yn y fath fodd i gyflawni amcanion penodol. Opsiynau pan fetho popeth arall yw'r pwerau ffurfiol hyn, ac ni fyddant fel arfer yn cael eu defnyddio heblaw mewn achosion pan fo'n annhebygol y bydd unrhyw ymyrraeth arall yn llwyddo.

**Pwy sy'n rhedeg y bwrdd/ymddiriedolaeth neu wasanaeth iechyd yn ystod y cyfnod pan fydd o dan fesurau arbennig?**

Fel arfer bydd bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd lleol yn parhau'n gyfrifol am reoli gwasanaethau iechyd ac am sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y cerrig milltir a nodwyd. Fodd bynnag, fel a nodwyd, uchod mae gan Weinidogion Cymru bwerau ffurfiol i gael gwared ar aelod unigol neu bob aelod o'r Bwrdd ond dim ond os na fydd y mesurau eraill yn arwain at welliannau yn y meysydd a nodwyd y defnyddir y pwerau hynny.

**Os yw bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd o dan fesurau arbennig, beth mae hyn yn ei olygu i wasanaethau iechyd?**

Bydd pobl yn dal i allu defnyddio eu gwasanaethau iechyd yn ôl yr arfer. Ni fydd gweithgareddau o ddydd-i-ddydd yn cael eu heffeithio gan fesurau arbennig. Bydd rheoleiddwyr yn parhau i fonitro'r gwasanaethau a'r gofal a ddarperir.

**A fydd apwyntiadau ysbyty yn cael eu heffeithio?**

Na, dylai pobl fynd i'w hapwyntiadau fel a drefnwyd. Bydd bwrdd iechyd sydd wedi cael ei roi o dan fesurau arbennig yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd i'w boblogaeth pan fydd yn cael cymorth ychwanegol i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

**A ydy mesurau arbennig yn cael eu defnyddio unrhyw le arall?**

Mae mesurau arbennig yn fath o ymyrraeth sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y GIG yn y DU fel ffordd o dargedu sefydliadau ac ysbytai unigol sy'n methu.